COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 29 EBRILL 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd CA Webster – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | RJ Collins | PA Davies |
| J Gebbie | M Jones | RME Stirman | KJ Watts |
| AJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

LM Walters

Swyddogion:

Gail Jewell Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu

49. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

L M Walters

50. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth A J Williams ddatgan diddordeb personol yn Eitem 4 ar yr Agenda, oherwydd ei fod yn Llywodraethwyr Ysgol i Ysgol Gynradd Coety.

51. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1, dyddiedig 30 Ionawr 2019, fel cofnod gwir a chywir.

52. LANDLORD CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad i’r Pwyllgor, a phwrpas hwn oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch y cynnydd oedd yn cael ei wneud ar weithredu model y ‘Landlord Corfforaethol’ ar draws portffolio eiddo’r awdurdod, yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a’r camau nesaf yn y broses.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Cyngor yn hanesyddol wedi rheoli ei bortffolio eiddo mewn dull gwasgaredig, lle roedd y cyfrifoldeb am ystad y Cyngor wedi ei daenu dros dair cyfarwyddiaeth a nifer o feysydd gwasanaeth. Amlinellodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol fod y Model Corfforaethol, yn ei ystyr symlaf, yn ymwneud â chanoli’r holl swyddogaethau cysylltiedig ag eiddo o dan un tîm integredig, oedd yn rhyddhau amser i’r meysydd gwasanaeth ganolbwyntio ar eu hamcanion craidd.

Yn dilyn hyn, rhoddodd Pennaeth Dros Dro’r Landlord Corfforaethol, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr ‘Pobl Hefyd’ gyflwyniad i’r Pwyllgor, yn egluro i’r Pwyllgor fanteision y model, y cynnydd a wnaed hyd yma, y cyfleoedd arbedion yn y dyfodol a'r ffrydiau gwaith allweddol fyddai’n digwydd dros y 18 mis nesaf.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi manteision model y Landlord Corfforaethol o ran dileu dyblygu, symleiddio gwasanaethau a gweithio fel ‘Un Cyngor’, ond mynegent rai

pryderon ynghylch blaenoriaethau gwaith trwsio a chynnal a chadw. Holai'r Aelodau sut yr oedd tîm y Landlord Corfforaethol yn blaenoriaethu anghenion y naill ysgol dros y llall, a dilynodd y Cadeirydd hyn drwy holi a fyddai ysgol - cwsmer oedd yn talu yn cael blaenoriaeth ar gyfer trwsio o flaen problem yn un o adeiladau'r Cyngor. Esboniodd Pennaeth Dros Dro'r Landlord Corfforaethol fod yr holl waith y gofynnir amdano drwy'r ddesg gymorth yn cael ei asesu drwy frysbennu ac yr ymdrinnid â'r gwaith ar dail blaenoriaethu'n unig.

Ar bwnc y berthynas waith rhwng Ysgolion a phroses y Landlord Corfforaethol, er eu bod yn nodi bod cefnogaeth dda gan ysgolion ac addysg, fe wnaeth Aelodau'r Pwyllgor dynnu sylw at yr angen i annog mwy o ddefnydd o'r model drwy gyfathrebu mwy â llywodraethwyr ysgolion yn ogystal â phenaethiaid ysgolion er mwyn pwysleisio'r manteision ariannol a strategol o wneud hynny.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch adeiladau oedd yn eiddo i'r Cyngor nad oedd modd eu defnyddio ar y pryd oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael neu fod asbestos i'w ganfod o fewn yr ased. Felly gofynnodd yr Aelodau am gael derbyn gwybodaeth bellach ynghylch unrhyw gynlluniau cynnal a chadw ar gyfer asedau ym mhob ward ynghyd ag unrhyw benderfyniadau tymor hir posibl y gellid bod eu hangen.

Ar destun y gyllideb a ddyrannwyd i fodel y Landlord Corfforaethol, cwestiynai'r Pwyllgor y ffioedd a ddyrannwyd i wasanaethau ymgynghori 'Pobl Hefyd' a beth oedd wedi ei gynnwys yn y ffigur. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol fod y ffi yn swm nodedig ond yn llai na'r arbedion a gynhyrchwyd hyd yma a bod y ffi yn cynnwys gwasanaethau megis cyngor a staff arbenigol na ellid eu cael yn fewnol.

Nododd y Pwyllgor nad oedd cyfeiriad at Drosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) yn yr adroddiad ac felly holent sut yr oedd model y Landlord Corfforaethol yn cefnogi cyfleoedd TAC. Adroddodd Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol y byddai cyfathrebu a chymorth cychwynnol ar gyfer sefydliadau cymunedol posibl yn cael ei ddyrannu i Swyddog TAC, ond y byddai'r Landlord Corfforaethol yn hwyluso TAC pan fyddai'r trefniadau ar lefel contract.

<u>PENDERFYNWYD:</u>
Er ei bod yn amlwg bod Pennaeth dros dro'r Landlord Corfforaethol yn cyflawni ei rôl yn ganmoladwy, tynnodd y Pwyllgor sylw at y pwysigrwydd a'r angen i brosiect y Landlord Corfforaethol gael ei arwain gan swyddog uwch o fewn yr Awdurdod. Felly argymhellodd yr Aelodau bod hyn yn cael ei weithredu ar y cyfle cyntaf posibl.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd addysgu ysgolion ynglŷn â'r manteision ariannol a strategol o ymrwymo i fodel y Landlord Corfforaethol. Er mwyn cynorthwyo'r Swyddogion gyda'r datblygiad hwn, argymhellodd yr Aelodau y canlynol:

- Bod arweinyddiaeth gref yn cael ei dyrannu i sicrhau darparu lefel briodol o hyrwyddo a chymhelliant i fod yn rhan o broses y Landlord Corfforaethol;
- Bod manteision proses y Landlord Corfforaethol fel y'u hamlinellwyd yn cael eu cyflwyno i lywodraethwyr pob ysgol yn ogystal â'r penaethiaid;
- Bod y Landlord Corfforaethol yn cael ei gynnwys ar yr agenda fel eitem i'w thrafod yn y digwyddiad Gŵyl Ddysgu nesaf neu mewn fforwm arall lle bydd llu o ysgolion yn bresennol.

Yn dilyn gweithredu Model y Landlord Corfforaethol a chanoli arfaethedig cyllidebau FM meddal argymhellodd y Pwyllgor fod arbedion pellach yn cael eu hystyried drwy ailasesu'r holl swyddogaethau a chyfrifoldebau drwy'r broses Werthuso Swyddi a fyddai'n cael ei hachosi gan y newidiadau hyn - o fewn y Cyngor ac mewn ysgolion.

Argymhellodd y Pwyllgor fod perthynas waith agosach yn cael ei datblygu rhwng tîm y Landlord Corfforaethol a'r Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn ei gwneud yn bosibl cyfleu'r wybodaeth sydd ganddynt a gwybodaeth am asedau, fydd o gymorth i gynllunio rheoli asedau'n effeithiol.

Yn ystod eu trafodaethau ynghylch asedau'r Awdurdod Lleol, argymhellodd y Pwyllgor fod yr holl Aelodau yn cael eu hysbysu am ganlyniadau'r arolygon cyflwr a drefnwyd ynghyd â chynlluniau cynnal a chadw ar gyfer pob ased o fewn pob ward.

<u>Gwybodaeth ychwanegol</u>
Holai'r Pwyllgor a oedd model y Landlord Corfforaethol yn cwblhau ac yn cofnodi arolygon bodlonrwydd ar gyfer pob gwaith a gyflawnwyd. Er mwyn bod o gymorth i fonitro effeithiolrwydd y model, gofynnodd yr Aelodau am gael derbyn adborth a ddaeth i law hyd yma er mwyn gwerthuso ochr yn ochr ag unrhyw adborth a dderbynnid ar ôl i'r cyswllt 'Pobl Hefyd' ddod i ben.

53. <u>PANEL TROSOLWG A CHRAFFU AR YMGYSYLLTIAD AELODAU AC YSGOLION - YSGOL GYNRADD PLASNEWYDD</u>

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adroddiad, a phwrpas hwn oedd cyflwyno i'r Pwyllgor ganfyddiadau ac argymhellion cyfarfod y Panel Ymgysylltiad Aelodau ac Ysgolion (MSEP) gydag Ysgol Gynradd Plasnewydd.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at baragraff 4.2 pwynt g) gyda chyfeiriad at hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgolion a chytunwyd bod y mater yn galw am waith craffu ac awgrymwyd gwahodd detholiad o Lywodraethwyr i ddod i'r cyfarfod Craffu er mwyn edrych ar y swyddogaeth a gweld pa gefnogaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol y De.

Ar bwnc Llywodraethwyr Ysgol, cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch hybu swyddi gwag presennol o fewn ysgolion a gofynnent am ystyried ffyrdd eraill o hysbysebu. Awgrymodd Aelodau y dylid cynnwys disgrifiad swydd sy'n amlinellu'n eglur yr hyn y mae'r swydd yn ei olygu ac y dylai grynhoi amseroedd a dyddiadau cyfarfodydd disgwyliedig er mwyn dangos yr ymrwymiad sydd ei angen wrth ymgymryd â'r swydd.

Cydnabu'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a holent a oedd y problemau a ganfuwyd o fewn Ysgol Gynradd Plasnewydd yn cael eu hailadrodd mewn ysgolion eraill ac awgryment y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor Craffu yn darparu adroddiad blynyddol yn amlinellu themâu'r problemau a ganfuwyd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Argymhellodd yr Aelodau fod adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Pwyllgor Craffu, yn amlinellu themâu problemau mewn ysgolion o fewn y Fwrdeistref, ynghyd â'r camau a sefydlwyd i liniaru'r materion hyn.

Wrth drafod 'Pwyntiau Pellach i Graffu arnynt', dywedodd y Pwyllgor eto fod angen edrych i mewn i swyddogaeth ac anghenion hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgolion. Yn dilyn trafodaethau, gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a'r argymhellion canlynol mewn perthynas â'r pwnc:

- Oherwydd y ffaith fod yna oddeutu 41 o swyddi gwag ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion ar hyn o bryd, argymhellodd yr Aelodau ystyried sut i hybu a hysbysebu ar gyfer y penodiadau hyn;

- Bod disgrifiad swydd arfaethedig y Llywodraethwr Ysgol hefyd yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd a drefnwyd er mwyn amlinellu'r ymrwymiad y byddai'r swydd yn galw amdano;
- Oherwydd bod sesiynau hyfforddi'n cael eu canslo o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb, gofynnodd yr Aelodau am edrych ar y modd y caiff sesiynau hyfforddi Llywodraethwyr Ysgolion eu hybu.
- Gwahodd detholiad o gynrychiolwyr Llywodraethwyr Ysgolion i ddod i'r cyfarfod er mwyn rhoi eu barn.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau ac argymhellion y Panel Ymgysylltiad Aelodau ac Ysgolion mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasnewydd a phenderfynwyd eu hanfon i gyd i'r Cabinet, y Gyfarwyddiaeth a'r Consortiwm am ymateb.

54. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad Rhaglen Waith i'r Dyfodol. Gan dynnu sylw at yr adborth o'r cyfarfod diwethaf, y Gweithdy craffu a drefnwyd i ddigwydd yn y cyfarfod nesaf a'r eitemau newydd arfaethedig ar gyfer Craffu.

Penderfynwyd:
Er bod y Pwyllgor yn deall oherwydd amgylchiadau personol parhaus gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd, a oedd efallai wedi arwain at oedi mewn ymateb i sylwadau ac argymhellion, bod y Pwyllgor yn gofyn i'w siom gael ei nodi nad oedd ymateb wedi cael ei baratoi gan Swyddog arall.

Mewn perthynas â'r eitem ar Cyfathrebiadau ac Ymgysylltiad a drefnwyd ar gyfer 3 Mehefin 2019, gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor Craffu ystyried gwahodd Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a gwahoddir cynrychiolydd hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Mewn perthynas ag eitem Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Ôl- 16, oedd wedi ei drefnu ar gyfer SOSC 2 ar 5 Mehefin 2019, i ddibenion dilyniant, mae Aelodau SOSC 1 wedi gofyn am gael bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn a chyfrannu iddo.

55. PROSIECT AILFODELU'R GWASANAETHAU MAETHU

PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor y wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad a'r Atodiad.

56. EITEMAU BRYS

Nid oedd eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.